# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(161)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Yr Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol yng ngogledd Cymru (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Gynhadledd Fawr - y camau nesaf (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Paratoadau ar gyfer Tywydd y Gaeaf (30 munud)**

**Dogfen Ategol**

Cyngor ar dywydd garw

**6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Yr Ail Adroddiad (30 munud)**

**7 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Parhad a Newid - Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru (30 munud)**

**8 Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (15 munud)**

**NDM5349 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2013.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

Memorandwm Esboniadol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  Adroddiad

**9 Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (15 munud)**

**NDM5350 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2013.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

Memorandwm Esboniadol

**10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)**

**NDM5259 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol sy'n ymwneud â'r trefniadau archwilio ar gyfer y Byrddau Draenio Mewnol y mae eu hardaloedd yn rhannol oddi fewn i Gymru, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Dogfennau Ategol**

Mae [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol] wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil, ewch i:
[Bill documents — Local Audit and Accountability Bill [HL] 2013-14 — UK Parliament]
[Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol]

### 11 Dadl: Cynlluniau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn Barod ar gyfer y Gaeaf (60 munud)

**NDM5348 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi gwaith GIG Cymru a'i bartneriaid wrth iddynt baratoi ar gyfer y gaeaf o'n blaenau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y penderfyniad i ohirio llawdriniaethau orthopedig yn ardal Hywel Dda.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf fel mater o drefn, ac na ddylai arwain at ddirywiad mewn gwasanaethau.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi Cynllun Paratoi ar gyfer y Gaeaf Cenedlaethol blynyddol ar gyfer GIG Cymru; a

b) cytuno bod cynlluniau o'r fath yn destun gwerthusiad ar ôl eu rhoi ar waith er mwyn canfod pa mor effeithiol ydynt.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at gynlluniau arfaethedig Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i ohirio'r holl lawdriniaethau orthopedig dewisol dros y gaeaf.

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun paratoi ar gyfer y gaeaf pob Bwrdd Iechyd Lleol.

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith y cafodd 2,600 o lawdriniaethau eu gohirio y llynedd oherwydd bod mwy o bwysau dros y gaeaf ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Byrddau Iechyd Lleol er mwyn osgoi unrhyw achosion o oedi neu ganslo llawdriniaethau oherwydd pwysau'r gaeaf yn y dyfodol.

**Gwelliant 7 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod 2,713 yn llai o welyau mewn ysbytai yng Nghymru nag a oedd yn 2003, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y gwelyau sydd ar gael er mwyn helpu i ateb yr her a ddaw yn sgîl y galw dros y gaeaf.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2013